# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

Dyddiad ac Amser

**9.00 a.m., DYDD MERCHER, 18FED TACHWEDD, 2015**

**NODER BOD YR AMSER CYCHWYN WEDI NEWID**

Lleoliad

**Hen Eglwys y Santes Fair, Heol yr Eglwys, Tremadog**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**(01341) 424301**

(Dosbarthwyd: 13.11.15)

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

AELODAETH / MEMBERSHIP

**AELODAU CABINET / CABINET MEMBERS**

Y Cynghorydd/Cllr Gareth Thomas (Addysg)
Y Cynghorydd/Cllr Peredur Jenkins (Adnoddau)

**CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL / CORPORATE DIRECTORS**

Mr Iwan Trefor Jones

**PENAETHIAID UWCHRADD / SECONDARY HEAD TEACHERS**

Mr Alun Llwyd – Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Eifion Jones - Ysgol Brynrefail
Mr Dylan Minnice - Ysgol Botwnnog
Mr Andrew Roberts - Ysgol y Berwyn

**PENAETHIAID CYNRADD / PRIMARY HEAD TEACHERS**

Mrs Iona Jones - Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal
Mr Rhys Williams - Ysgol Cymerau
Mrs Menna Wynne Pugh - Ysgol Penybryn
Mr Gwyn Howells - Ysgol y Gelli
Mr Geraint Evans – Ysgol Edern
Mrs Esme Spencer - Ysgol Baladeulyn

**UNDEBAU ATHRAWON / TEACHERS' UNIONS**

Mr Neil Foden – Ysgol Friars

LLYWODRAETHWYR / GOVERNORS
Arfon
Mr Dafydd Meirion Roberts, Ysgol Brynrefail,
Mr Godfrey Northam - Ysgol Llanllechid

Meirionnydd
Mr Gwynne Pierce - Ysgol Llanbedr
Mrs Llinos Lloyd, Corff Cysgodol Dalgylch y Gader
Dwyfor
Mr Gwilym Jones, Ysgol Borthygest
Cyng. Michael Sol Owen, Ysgol Glan y Mor

**ESGOBAETH / DIOCESE**

Parchedig/Rev Robert Townsend

**YSGOLION EGLWYS / CHURCH SCHOOLS**

(Disgwyl enwebiad / Awaiting Nomination)

YSGOLION ARBENNIG / SPECIAL SCHOOLS

Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon ac Ysgol Pendalar

**Sylwedyddion / Observers :**

Mr Dilwyn Williams, Prif Weithredwr/Chief Executive
Mr Arwyn Lloyd Thomas, Pennaeth Addysg / Head of Education Service
Mr Owen Owens, Uwch Reolwr Ysgolion / Senior Schools' Manager
Mr Hefin Owen, Rheolwr Cyllid y Gyfadran Datblygu/Finance Manager Development Directorate
Mr Cai Larsen, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd
Mrs Alwen Watkin, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. COFNODION 1 - 6

I gadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2015..

(Copi ynghlwm)

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

i) 7b) Cais Fforwm Undebau Athrawon am gynrychiolaeth ar y Gweithgor Cyllid Addysg
ii) 7) Cynrychiolydd GYDCA ar y Fforwm Cylldieb Ysgolion
a 12) Cynrychiolwyr Llywodraethwyr ar y Fforwm Cyllideb Ysgolion

## 5. GWEITHGOR CYLLID ADDYSG - MATERION O GYFARFOD 17 MEDI 2015

i) Trefniadaeth Ysgolion (adroddiad ar lafar)
ii) Balansau ysgolion / rhwyd diogelu ysgolion (gweler eitem 6)
iii) Effaith toriadau ar nifer swyddi(adroddiad ar lafar)
iv) Ffordd Gwynedd
v) £4.3m (gweler eitem 8)

## 6. POLISI ARFAETHEDIG DYRAIAD GWARCHODAETH YCHWANEGOL 7 - 12

6.1 Papurau’r ymgynghoriad
6.2 Crynodeb o ymatebion i’r ymgynghoriad

## 7. DIWEDDARIAD AR YR ADOLYGIAD ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD

Adroddiad ar lafar

**8.** **TARGED ARBEDION YSGOLION - £4.3M** 13 - 34

8.1 Crynodeb £4.3m
8.2 Gwariant cynharol addysg 2015-16
8.3 Crynodeb gwario PTR ac effaith ar warchodaeth
8.4 Modelu gwanioPTR cynradd
8.5 Modelu gwanio PTR ysgolion cynradd unigol
8.6 Modelu gwanio PTR mewn ysgolion uwchradd unigol

**9.** **NEWID CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH - GWASANAETH CLERCIO LLYWODRAETHOL** 35 - 45

9.1 Cytundeb Lefel Gwasanaeth – Gwasanaeth Clerigol i Gyrff Llywodraethol

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**
**Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd yn Yr Hen Eglwys Santes Fair, Tremadog,**
**ar 30 Mehefin 2015 o 1.30 p.m. hyd 2.45 p.m.**

**Yn Bresennol:**

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorydd Gareth Thomas (Addysg)

**Penaethiaid Ysgolion :** Eifion Jones (Ysgol Brynrefail), Alun Llwyd (Ysgol Dyffryn Ogwen), Dylan Minnice (Ysgol Botwnnog), Iona Wyn Jones (Ysgol Bro Cynfal/Ysgol Edmwnd Prys), Menna Wynne-Pugh (Ysgol Penybryn, Tywyn), Gwyn Howells (Ysgol y Gelli),

**Llywodraethwyr:** Godfrey Northam (Ysgol Llanllechid) – ar gyfer Eitem 11

**Swyddogion:** Arwyn Thomas (Pennaeth Addysg)
Owen Owens (Uwch Reolwr Ysgolion)
Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Cyllid), Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid), Hefin Owen (Rheolwr Uned Cyllid), Rhys Williams (Ysgol Cymerau), Sianelen Pleming (Ysgol Llanaelhaearn), Esme Spencer (Ysgol Baladeulyn), Andrew Roberts (Ysgol y Berwyn), Neil Foden (Undebau Athrawon) a Donna Roberts (Ysgol Pendalar).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol Mr Godfrey Northam yn Gadeirydd y Fforwm am y flwyddyn 2015/16.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Gareth Thomas yn Is-gadeirydd y Fforwm am y flwyddyn 2015/16/**

**Deallwyd bod amser cychwyn y cyfarfod yn anghywir yn nyddiadur y Cadeirydd felly yn ei absenoldeb o ran helaeth o'r cyfarfod bu i'r Is-gadeirydd gadeirio'r cyfarfod.**

**3. CROESO**

Croesawyd Dylan Minnice, Pennaeth Ysgol Botwnnog, i'w gyfarfod cyntaf o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion yn dilyn ei benodiad fel olynydd i Gareth T M Jones.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol.

## 5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2015 fel rhai cywir.

## 6. MATERION YN CODI O'R COFNODION

**Eitem 3 (a) – Hyfforddiant Cyllidol i ysgolion**

Adroddwyd bod y dyddiadau isod wedi eu pennu ar gyfer cynnal hyfforddiant cyllidol i ysgolion gyda'r amser a lleoliadau i'w cadarnhau maes o law:

13 Hydref 2015
14 Hydref 2015
15 Hydref 2015

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 7. GWEITHGOR CYLLID ADDYSG

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Addysg yn gofyn i'r Fforwm gadarnhau parhad o'r Gweithgor Cyllid Addysg er mwyn cynnal trafodaeth yn unol â phenderfyniad y Cabinet yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror 2015 sef:

**(a)** Derbyn cynigion y Fforwm Cyllido Addysg ar gyfer cyflawni £952,000 o arbedion o'r gyllideb ysoglion yn 2015/16 a chadw o fewn yr addewid cyllido ysgolion, gan ddefnyddio "Model B" ar gyfer cwtogi £60,131 o ddyraniad staff dysgu'r sector gynradd, a chwtogi £25,771 o ddyraniad staff dysgu'r sector uwchradd.
**(b)** Gofyn i'r Fforwm Cyllido Ysgolion barhau i adolygu gwasanaethau a threfniadaeth addysg er mwyn canfod gweddill y targed arbedion uwchben y £952,000 ar gyfer 2015/16, gan ddisgwyl eu hargymhelliad ynglyn â sut y gellir gwireddu'r £4.3m cyfan dros y cyfnod 2015/16 – 2018/19
**(c)** Gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg annog cyrff llywodraethol ysgolion unigol i ystyried sut y gallant ddefnyddio balansau eu hysgolion fel rhan o becyn i gyfarch eu bwlch ariannol mewn ffordd gynlluniedig.

Cyfeiriwyd at y daenlen oedd ynghlwm i'r adroddiad yn crynhoi yr hyn drafodwyd gan y Gweithgor hyd yma.

O safbwynt toriadau gosodwyd targed o £4.3m er mwyn ceisio cael y Gwasanaeth Addysg i uchafu'r arbedion effeithlonrwydd y byddai modd eu gwasgu allan o'r gyfundrefn addysg cyn symud ymlaen i doriadau. Pwysleiswyd bod y ffin rhwng arbedion effeithlonrwydd a thoriadau yn un anodd i'w ddiffinio ym maes addysg.

Gofynnwyd i'r Fforwm gadarnhau aelodaeth y Gweithgor ac fe'u hatgoffwyd o'r aelodau ymysg Penaethiaid y sector uwchradd a'r cynradd:
Neil Foden, Alun Llwyd, Eifion Jones a Dewi Lake (Uwchradd)
Owain Lemin Roberts, Ifan Llyr Rees, Geraint Evans a Sianelen Pleming (Cynradd)

Awgrymwyd i'r GYDCA drafod enwebiad i olynu Sianelen Pleming ar y Gweithgor yn sgil ei bwriad i ymddeol.

Adroddodd y Pennaeth Addysg mai'r her ydoedd bod yn fwy effeithlon tra'n gweithio tuag at yr arbedion o £4.3m. Roedd canran toriadau y gwasanaeth oddeutu 6 / 7% o'i gymharu â rhai gwasanaethau a oedd yn chwilio am oddeutu 30%. Byddai'n ofynnol i'r Gweithgor gynnal trafodaethau anodd iawn gan ystyried egwyddorion sylfaenol gan gyfarch y ddarpariaeth orau i blant a phobl ifanc.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet Addysg bod Cabinet y Cyngor yn cynnal cyfres o weithdai gyda holl Aelodau'r Cyngor i drafod proses yr arbedion a bod y Gwasanaeth Addysg o dan ystyriaeth ar 6 Gorffennaf 2015. Ar derfyn y broses bwriedir, er tryloywder, ymgynghori gyda thrigolion Gwynedd ym mis Medi / Hydref ynglyn â gweithrediad y toriadau posibl.

Awgrymodd Bennaeth y byddai'n rhaid i'r Gweithgor edrych ar y darlun yn ei gyfanrwydd ac oni fyddai'n well ei enwi "Gweithgor Rhesymoli Addysg ac Ysgolion".

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Cadarnhau Aelodaeth y Gweithgor Cyllid Addysg fel a ganlyn:**

**Cadeirydd y Fforwm Cyllideb Ysgolion (Mr Godfrey Northam)**
**Aelod Cabinet Addysg (Y Cyng. Gareth Thomas)**
**4 Pennaeth Cynradd (Owain Lemin Roberts, Ifan Llyr Rees, Geraint Evans ac un enwebiad gan y GYDCA (Cynradd)**
**4 Pennaeth Uwchradd (Neil Foden, Alun Llwyd, Eifion Jones a Dewi Lake)**
**Pennaeth Ysgol Arbennig (Donna Roberts, Ysgol Pendalar)**
**Cynrychiolydd yr Esgobaeth (Parch. Canon Robert Townsend)**

**Sylwedyddion: Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau (Y Cyng. Peter Read)**
**Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau (Y Cyng. Beth Lawton)**

**(c) Cynnal cyfarfod o'r Gweithgor ar 17 Medi 2015 yn ddibynnol os nad yw yn cyd-daro gyda chyfarfod Strategol Uwchradd.**

## 8. CYFRIFON TERFYNOL YSGOLION BLWYDDYN GYLLIDOL 2014/15

Cyflwynwyd fanylion balansau ysgolion ar 31 Mawrth 2015 a oedd yn amlinellu bod y balansau wedi gostwng £281,267 yn ystod 2014/15 i £3,495,580, sy'n cyfateb i 4.89% o'u dyraniad terfynol.

Nodwyd bod gan 15 ysgol ddiffyg ariannol ar ddiwedd 2014/15 gwerth £327,873 i gymharu gyda 7 ar ddiwedd 2013/14 gwerth £116,313.

- 9 ysgol gynradd gyda chyfanswm diffyg £111,677 (amrywio rhwng £780 a £52,579)

- 5 ysgol uwchradd gyda chyfanswm diffyg £190,742 (amrywio rhwng £17,943 a £94,128)
- 1 ysgol arbennig gyda diffyg £25,454

Gwelir lleihad sylweddol ym malansau ysgolion uwchradd ond cynnydd ym malansau ysgolion cynradd.

Atgoffwyd yr Aelodau am y drefn gweithredu cyfarwyddo defnydd balansau a chyfeiriwyd at yr atodiad oedd ynghlwm i'r adroddiad yn amlygu'r symiau ariannol sydd dros y trothwyon. Nodwyd bod 18 ysgol gynradd dros y trothwy £50,000 a 4 ysgol uwchradd dros y trothwy £100,000.

Nododd yr Aelod Cabinet Addysg bod balansau uchel ysgolion yn creu loes iddo yn enwedig wrth geisio amddiffyn cyllideb ysgolion a'r hinsawdd o doriadau sydd ohoni. Pwysleiswyd yr angen i weithredu'r cynllun cyfarwyddo defnydd balansau ac i ysgolion gyflwyno rhesymeg dros gadw'r balansau dros y trothwyon.

**Penderfynwyd: Cymeradwyo:**

**(a) I'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid gydweithio yn agos gyda'r ysgolion gyda diffyg ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn clirio'r diffyg cyn gynteg â phosibl**
**(b) I'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid adolygu trefniadau presennol monitro cyllidebau ysgolion**
**(c) Wrth drafod balansau, rhaid ystyried yr her ar ysgolion i ddarganfod arbedion ariannol sylwedol yn y blynyddoedd gyllidol 2016/17, 2017/18 a thu hwnt. Dylid hefyd fod yn ymwybodol am effaith ariannol rhagolwg lleihad pellach yn nifer disgyblion ysgolion uwchradd o dros £800,000 rhwng 2016/17 a 2017/18.**

## 9. GRANT GWELLA ADDYSG 2015/16

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Pennaeth Addysg ynghylch y grant "newydd" sy'n uno 11 grant blaenorol gan weithredu toriad o 10% yr un pryd.

Cyfeiriwyd at y manylion ariannol a olygir cyfanswm cyllid Grant Gwella Addysg i Wynedd yn £6,308,073. Gwelwyd ynghlwm i'r adroddiad ddadansoddiad o ddyraniad ysgolion unigol yn seiliedig ar:
GGA Cyfnod Sylfaen (fformiwla penodol yn bennaf ar sail disgyblion cyfnod Sylfaen)
GGA Rhwydwaith 14-19 (yn bennaf ar sail cyrsiau penodol a ddarperir)
GGA Eraill (80% nifer disgyblion 20%, cinio am ddim)

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod GwE wedi anfon templed i ysgolion ar gyfer rhestru ystod o bwrpasau'r grant gan ofyn iddynt ei gwblhau fel rhan o'u trefn cynllunio ar gyfer gwella'r Ysgol.

Nododd Bennaeth werthfawrogiad i'r Uned Gyllid am eu gwaith yn nhrefniadau'r uchod a gofynnwyd a fydd y maes yn rhan o drafodaethau y Gweithgor.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Addysg ni ellir rhagweld beth fydd maint y gyllideb Ebrill nesaf a pha elfennau fydd i'w cadw'n ganolog.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**10. RHWYDWAITH CYFRIFIADUROL YSGOLION**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth yn diweddaru'r Aelodau ynglyn â'r grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer:

- Rhoi darpariaeth di-wifr gynhwysfawr yn y mannau dysgu
- Safoni ar gyflymder i'r rhyngrwyd ar 10mbps (ysgolion cynradd ac arbennig) / 100mbps (ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd > 300 o ddisgyblion)
- Darpariaeth yn cael ei gyflwyno ar ffeibr ar gyfer ehangu'n y dyfodol i 100mbps a 1000mbps
- Pob cyswllt yn cael ei wneud yn ran o rwydwaith ehangach y sector gyhoeddus (PSBA)

gyda'r bwriad y bydd pob cyswllt wedi eu cytundebu tan ddiwedd Mawrth 2017.

Nodwyd bod 5 ysgol cynradd yn parhau i ddisgwyl am y ddarpariaeth newydd oherwydd bod y rhaglen wedi llithro a'r tebygolrwydd y gall barhau i lithro.

Cyfeiriwyd at ddatblygiadau pellach mewn darpariaeth sustem fôn newydd i swyddfeydd y Cyngor a fydd hefyd ar gael i ysgolion a olygai cyfleon am arbedion yn y biliau ffôn.

Nodwyd bod y ddarpariaeth di-wifr yn cael ei hymledu i swyddfeydd a chanolfannau eraill y Cyngor, megis llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, archifdai ac amgueddfeydd, sy'n golygu y gall disgyblion ac athrawon barhau gyda gwaith cwricwlwm yn y mannau hyn.

**Penderfynwyd: Cymeradwyo:**

**(i) Bod y gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma yn cynnig gwelliant sylweddol i'r isadeiledd technoleg gwybodaeth sy'n cefnogi dysgu yn yr ysgolion**
**(ii) I ymrwymo i ddefnyddio'r ddarpariaeth newydd ac adolygu'r ddarpariaeth cyn diwedd y cyfnod cytundebol ym Mawrth 2017.**

**11. DYDDIADAU CYFARFODYDD NESAF**

**Penderfynwyd: Pennu'r dyddiadau isod ar gyfer cyfarfodydd nesaf y Fforwm Cyllideb Ysgolion:**

**18 Tachwedd 2015 (9.30 a.m.)**
**10 Chwefror 2016 (9.30 a.m.)**

**12. YMDDISWYDDIAD**

Nododd Mr Godfrey Northam ddymuniad Mr Walter Williams, cynrychiolydd Llywodraethwyr Uwchradd Ardal Arfon, i ymddiswyddo fel aelod o'r Fforwm Cyllideb oherwydd ymrwymiadau eraill.

Trafodwyd ymhellach diffyg presenoldeb rhai o'r Llywodraethwyr sy'n gwasanaethu ar y Fforwm ac awgrymwyd gwneud ymholiadau yng Nghymdeithas Llywodraethwyr Gwynedd ynglyn â'u dymuniad i barhau i wasanaethu ar y Fforwm.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu gysylltu â'r Adran Addysg ar gyfer gwneud trefniadau i Gymdeithas Llywodraethwyr Gwynedd:**

**(i) enwebu olynydd i Mr Walter Williams**

**(ii) ganfod dymuniad y Llywodraethwyr eraill ynglyn â pharhad i wasanaethu ar y Fforwm.**

**<u>CADEIRYDD</u>**

Eitem 6

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 18 Tachwedd 2015 |
| **TEITL** | Polisi Arfaethedig Dyraniad Gwarchodaeth Ychwanegol |
| **PWRPAS** | Gofynnir am argymhelliad gan y Fforwm Cyllid Ysgolion |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn y polisi arfaethedig |
| **AWDUR** | Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

**1. Cefndir**

1.1 Gyda lefel balansau Ysgolion Cynradd Gwynedd yn parhau ymysg yr uchaf yng Nghymru, mae galw blynyddol o sawl cyfeiriad , gan gynnwys Penaethiaid, Cynghorwyr a Rhieni, i adolygu'r sail cyllido, yn arbennig ar gyfer balansau uchel mewn rhai Ysgolion sy'n derbyn dyraniad ychwanegol gwarchodaeth lleiafswm staffio.

1.2 Yn anffodus, mae deddfwriaeth yn rhoi grym pendant i'r Cyngor daclo'r elfen balansau sydd **dros £50,000 yn unig** mewn Ysgolion Cynradd h.y. nid oes gan y Cyngor grym pendant gyda'r elfen balansau hyd at £50,000.

1.3 Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn gyda holl Ysgolion Gwynedd (**atodiad 6.1**) ar bolisi arfaethedig dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio ychwanegol i leihau'r dyraniad ychwanegol gwarchodaeth lleiafswm staffio gyda swm cyfatebol i'r elfen balansau dros 5% ar ddiwedd y flwyddyn gyllidol ddiweddaraf gafod ei gyhoeddi.

1.4 Os bydd y polisi arfaethedig yn cael ei dderbyn mi fydd hynny'n golygu lleihad yn y dyraniad ychwanegol gwarchodaeth lleiafswm staffio ar gyfer 2016/17 gan bwysleisio mai arbediad unwaith ac am byth yw hyn.

**2. Canlyniadau'r Ymgynghoriad**

2.1 Derbyniwyd ymateb gan 45 Ysgol allan o 109.

- O Blaid 36 (80%)
- Yn Erbyn 9 (20%)

2.2 Amgeir crynodeb o sylwadau'r Ysgolion (**atodiad 6.2**)

**3. Casgliad**

3.1 Mae mwyafrif clir o'r Ysgolion wnaeth ymateb yn cefnogi gweithredu'r polisi arfaethedig.

3.2 Gall gweithredu'r polisi arfaethedig daro trefniadau presennol a chynlluniau rhai Ysgolion, gan gynnwys oblygiadau ariannol. Mewn amgylchiadau o'r fath bydd angen cynnal trafodaeth gyda'r Adran Addysg.

3.3 Os bydd y polisi arfaethedig yn cael ei dderbyn, gan fod rhan o'r cynlluniau arbedion £4.3m yn disgyn tu allan i'r cyfnod 3 mlynedd 2015/16 i 2017/18, defnyddir yr arbedion unwaith ac am byth i gyfrannu at ariannu'r cyfnod pontio angenrheidiol.

**4. Argymhelliad**

4.1 Gofynnir i'r Fforwm Cyllid Ysgolion gymeradwyo'r argymhelliad.

**Pennaeth Addysg**
**Head of Education**
Arwyn Thomas

Gofynnwch am/Ask for: Arwyn Thomas
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: AT/AAS
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
arwynthomas@gwynedd.gov.uk

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

6.1

Medi 30, 3015

**I sylw: Corff Llywodraethol a Phenaethiaid Ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig**

**Ymgynghori ar Bolisi Arfaethedig Dyraniad Gwarchodaeth Ychwanegol i Ysgolion**

Annwyl gyfaill

Rwyf wedi adolygu'r polisi dyraniad gwarchodaeth ychwanegol i Ysgolion ac o'r farn bod angen ychwanegu cymal sy'n cysylltu'r dyraniad gwarchodaeth ychwanegol i faint balansau'r ysgol.

**Y Polisi Gwarchodaeth Presennol**

Ysgolion Cynradd : Os yw nifer disgyblion ysgol trwy'r fformiwla dyrannu cynradd yn cynhyrchu llai na 2 athro, mae'r polisi gwarchodaeth yn darparu dyraniad ychwanegol ar gyfer cynyddu'r nifer athrawon i 2, sef Pennaeth ac Athro.
Mewn Ysgolion sydd gyda llai na 15 disgybl, y polisi yw darparu dyraniad gwarchodaeth ychwanegol er mwyn cyflogi Pennaeth a Chymhorthydd Dosbarth.

Ysgolion Uwchradd : Os yw nifer disgyblion ysgol trwy'r fformiwla dyrannu uwchradd yn cynhyrchu llai na 18.17 athro, mae'r polisi gwarchodaeth yn darparu dyraniad ychwanegol ar gyfer cynyddu'r nifer athrawon i 18.17.

**Addasiad i'r Polisi**

Yr addasiad rwyf yn ei gynnig yw lleihau'r dyraniad gwarchodaeth yn gyfatebol i'r elfen balansau sydd dros 5%, gan ddefnyddio'r swm balansau ar ddiwedd y flwyddyn gyllidol ddiweddaraf gafodd ei gyhoeddi.

Amgaeaf daenlen sy'n amlygu'r sefyllfa bresennol ac effaith y cynnig (ar hyn o bryd ar sail gwir nifer disgyblion Medi 2014 - bydd angen addasu gyda gwir nifer disgyblion Medi 2015 pan mae'r ystadegau llawn ar gael).

Gofynnaf am ymateb eich ysgol i'r cynnig erbyn dydd Gwener, 6 Tachwedd, 2015,yn dilyn hynny byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r cyfarfod Fforwm Cyllid Ysgolion ar 18 Tachwedd, 2015, gydag argymhelliad y Fforwm yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet 15 Rhagfyr, 2015.

Os bydd Cabinet Cyngor Gwynedd yn cymeradwyo'r cynnig mi fydd yn weithredol ar gyfer y flwyddyn gyllidol 2016/17.

**Ymateb yr Ysgol**

O safbwynt y cynnig i ychwanegu cymal sy'n cysylltu'r dyraniad gwarchodaeth ychwanegol i faint balansau'r ysgol , a fyddwch yn datgan os yw'r Ysgol -

O blaid y cynnig :

Yn erbyn y cynnig :

Dim barn :

Sylwadau :

***Dychwelch eich ymateb i Annie Sanson (anniesanson@gwynedd.gov.uk) erbyn dydd Gwener, 6 Tachwedd, 2015.***

Diolch

*Arwyn Thomas*

**Arwyn Thomas**
**Pennaeth Addysg**

**Ymgynghori ar Bolisi Arfaethedig Dyraniad Gwarchodaeth Ychwanegol i Ysgolion**
**Consultation on Schools' Additional Safeguarding Allocation Policy**
***( ar sail Dyraniad 2015/16 - base on 2015/16 Allocation)***

Tud. 11

## Ysgolion Cynradd / Primary Schools

| | | | Balans(+) / Diffyg (-) Balance(+) / Deficit(-) 31/03/13 | Balans(+) / Diffyg (-) Balance(+) / Deficit(-) 31/03/14 | Balans(+) / Diffyg (-) Balance(+) / Deficit(-) 31/03/15 | Balansau 31/03/2015 sydd dros 5% o Dyraniad 2015/16 / 31/03/2015 Balances over 5% of the 2015/16 Allocation | Defnyddio Balansau dros 5% i leihau Dyraniad Gwarchodaeth / Apply Balances over 5% to reduce the Safeguarding Allocation | Gweddill balansau i'w cadw gan yr Ysgol / Remainder of balances to be retained by the School | Dyraniad Gwarchodaeth / Safeguarding Allocation 2015/16 | Dyraniad Gwarchodaeth Diwygiedig / Revised Safeguarding Allocation 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2009 | ABERSOCH | £20,741 | £16,145 | **£16,787** | £10,234 | **£10,234** | £6,554 | £19,658 | £9,424 |
| 2 | 2010 | BEDDGELERT | £17,317 | £10,842 | **£12,369** | £3,982 | **£3,982** | £8,387 | £29,081 | £25,099 |
| 3 | 2035 | CWM Y GLO | £25,914 | £35,143 | **£35,411** | £25,700 | **£11,274** | £24,137 | £11,274 | £0 |
| 4 | 2047 | FELINWNDA | £10,451 | £9,944 | **£10,713** | £2,635 | **£2,635** | £8,079 | £27,724 | £25,089 |
| 5 | 2059 | LLANAELHAEARN | -£2,306 | £2,825 | **£12,661** | £3,914 | **£3,914** | £8,747 | £24,551 | £20,637 |
| 6 | 2078 | BALADEULYN | £713 | £196 | **£828** | £0 | **£0** | £828 | £25,876 | £25,876 |
| 7 | 2081 | NEBO | £21,829 | £14,167 | **£25,195** | £16,878 | **£16,878** | £8,316 | £30,226 | £13,348 |
| 8 | 2097 | RHIWLAS | -£3,813 | £902 | **£4,945** | £0 | **£0** | £4,945 | £4,637 | £4,637 |
| 9 | 2118 | BABANOD COED MAWR | £37,181 | £36,957 | **£41,267** | £30,716 | **£10,286** | £30,981 | £10,286 | £0 |
| 10 | 2183 | BRITHDIR | £17,468 | £17,058 | **£20,743** | £12,212 | **£619** | £20,124 | £619 | £0 |
| 11 | 2187 | DINAS MAWDDWY | £13,476 | £36,963 | **£43,241** | £33,769 | **£33,769** | £9,472 | £36,243 | £2,474 |
| 12 | 2191 | GANLLWYD | £5,312 | £6,145 | **£6,851** | £0 | **£0** | £6,851 | £44,038 | £44,038 |
| 13 | 2192 | EDMWND PRYS | £12,379 | £12,002 | **£10,425** | £1,553 | **£1,553** | £8,872 | £27,405 | £25,852 |
| 14 | 2197 | LLANELLTYD | £7,011 | £11,764 | **£12,107** | £3,028 | **£3,028** | £9,079 | £4,353 | £1,325 |
| 15 | 2198 | Y GARREG | £19,292 | £20,996 | **£12,294** | £4,825 | **£4,825** | £7,469 | £38,803 | £33,979 |
| 16 | 2207 | PENNAL | £14,331 | £21,276 | **£28,650** | £19,513 | **£19,513** | £9,137 | £31,461 | £11,948 |
| 17 | 2210 | TALSARNAU | £6,090 | £6,719 | **£14,090** | £4,867 | **£4,867** | £9,223 | £10,876 | £6,008 |
| 18 | 2215 | IEUAN GWYNEDD | £9,275 | £38,863 | **£28,321** | £19,167 | **£19,167** | £9,154 | £47,440 | £28,272 |
| 19 | 2216 | FRIOG | £8,509 | £6,888 | **-£780** | £0 | **£0** | -£780 | £31,881 | £31,881 |
| 20 | 3010 | FOELGRON | £16,647 | £11,085 | **£15,924** | £7,879 | **£7,879** | £8,045 | £13,643 | £5,764 |
| 21 | 3023 | LLANYSTUMDWY | £18,231 | £8,934 | **£11,338** | £3,075 | **£3,075** | £8,264 | £19,043 | £15,968 |
| | | **Cyfanswm / Total** | **£276,048** | **£325,814** | **£363,380** | **£203,947** | **£157,499** | **£205,881** | * **£489,116** | **£331,618** |

* *cyfanswm gwarchodaeth 2015/16 £567,195 llai ysgolion sydd wedi cau yn ystod y flwyddyn*
*total safeguarding for 2015/16 £567,195 less schools closed during the year*

## Ysgolion Uwchradd / Secondary Schools

| | | | 31/03/13 | 31/03/14 | 31/03/15 | Balances over 5% | Apply Balances | Remainder | Safeguarding Allocation 2015/16 | Revised Safeguarding Allocation 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 4032 | TYWYN | £96,856 | £404 | **-£17,943** | £0 | **£0** | -£17,943 | £46,667 | £46,667 |
| 2 | 4033 | Y BERWYN | -£181,017 | -£90,156 | **-£94,128** | £0 | **£0** | -£94,128 | £30,788 | £30,788 |
| | | **Cyfanswm / Total** | **-£84,161** | **-£89,752** | **-£112,071** | **£0** | **£0** | **-£112,071** | **£77,455** | **£77,455** |

Atodiad / Appendix 6.1

# Polisi Arfaethedig Dyraniad Gwarchodaeth Ychwanegol

**Sylwadau Ysgolion**

**O Blaid**

1 Edrych yn rhesymol er dylid ystyried blwyddyn o oedi

1 Dylid hefyd ystyried yr elfen balansau dan 5% i'r ysgolion sy'n derbyn gwarchodaeth lleiafswm staffio

1 Rhaid bod yn ofalus fodd bynnag pan mae ysgol yn ceisio cynilo i gyllido blaenoriaeth arbennig, dylid hefyd ystyried edrych ar y balansau dros gyfnod o flynyddoedd

1 Gwerthfawrogir bod pob ysgol sy'n cael ei heffeithio yn cael cyfle i ymateb ac i gyfleu eu sefyllfa yn unigol

1 Dylai'r arian sydd yn cael ei gynilo gan yr awdurdod fynd yn ôl i gyllideb ysgolion Cynradd gan mai o yno daeth yn wreiddiol

1 Angen pwysleisio mai arbedion unwaith ac am byth fyddai'r diwygiad yn gallu cynnig

1 Ni ddylai balansau unrhyw ysgol, beth bynnag i'w maint, fod dros 5%

**Yn Erbyn**

1 Mae'r balansau yn cynnal lefel staffio presennol yr ysgol - bydd derbyn y cynnig yn lleihau nifer staff yr ysgol

1 Mae'r balansau yn cynnal lefel staffio presennol yr ysgol, nid yw'r dyraniad gwarchodaeth yn ddigonol i gynnal sefyllfa staffio yr ysgol

1 Mae'r balansau yn cynnal lefel staffio presennol yr ysgol, nid yw'r ysgol yn derbyn dyraniad anghenion dysgu ychwanegol trwy'r fformiwla a byddai gweithredu'r diwygiad i'r polisi yn ei gwneud yn amhosib cefnogi disgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol yr Ysgol

1 Mae'r ysgol mewn gormodedd, byddai colli'r balansau dan sylw yn gyrru'r ysgol i sefyllfa ddyrys iawn

1 Mae cynlluniau cydweithio a rhyddhau staff wedi arwain at y balansau dan sylw ac mae'r ysgol eisoes wedi'i ymrwymo ar gyfer addasiadau i'r safle

1 Mae'r balansau sydd dan sylw eisoes wedi'i ymrwymo ar gyfer cynlluniau cydweithio

2 Mae'r balansau dan sylw eisoes wedi'i gwario felly nid ydynt ar gael

Eitem 8

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 18 Tachwedd 2015 |
| **TEITL** | Targed Arbedion Ysgolion |
| **PWRPAS** | Arbedion £4.3m 2015/16 i 2017/18 |
| **ARGYMHELLIAD** | Fforwm Cyllideb Ysgolion i ystyried ac argymell i'r Cabinet sail gweithredu ar gyfer gweddill yr arbedion. |
| **AWDUR** | Arwyn Lloyd Thomas, Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

**1. Cefndir**

**1.1** Yn cyfarfod y Cyngor 5 Mawrth 2015 penderfynodd y cyngor ar gyllideb 2015/16 gan gynnwys arbedion Ysgolion o £952,000 allan o'r targed arbedion £4.3m.

**1.2** Mae hynny'n gadael arbedion o £3,348,000 i'w weithredu.

**2. Cynlluniau Cytunedig gan y Gweithgor £1,028,000**

**2.1** Gofynnir i'r Fforwm gadarnhau argymhelliad y Gweithgor i weithredu'r cynlluniau a rhestrir dan golofnau 2016/17, 2017/18 a 2018/19 ar **atodiad 8.1**, cyfanswm £1,028,000.

**3. Gweddill y targed arbedion £2,320,000**

**3.1** Yr awgrym hyd yma yw gweithredu gweddill y targed arbedion trwy wanio'r gymhareb disgybl athro oddi fewn y fformiwla dyrannu Cynradd ac Uwchradd.

**3.2** Rydym eisoes wedi amlygu a thrafod opsiynau gwahanol ar gyfer rhannu gweddill y targed arbedion rhwng y sector gynradd a'r sector uwchradd, gan ystyried sawl factor gan gynnwys Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-17, adborth Estyn ac ystadegau cymharol genedlaethol.

**3.3** Fe gofiwch hefyd i'r Fforwm dderbyn tystiolaeth gan y Penaethiaid ar effaith tebygol y gwahanol opsiynau yn cyfarfod arbennig o'r Fforwm cynhaliwyd 15 Ionawr 2015.

**3.4** Gofynnir nawr i symud y drafodaeth ymlaen gan ystyried y ffactorau a gyfeiriwyd atynt yn 3.2 ac 3.3 ynghyd a thystiolaeth ystadegau cymharol genedlaethol diweddaraf, gweler **atodiad 8.2**.

**3.5** Mae'r opsiynau A,B,C ac CH a chyflwynwyd i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar y 15 Ionawr 2015 nawr wedi'i ail gyfrifo gan ddefnyddio gwir nifer disgyblion Medi 2015, gwelir **atodiad 8.3, 8.4, 8.5 a 8.6**.

**3.6** Sail yr opsiynau yw gweithredu arbediad £2,320,000 trwy :

- A : pro rata i gwantwm y ddau sector (55% Cynradd, 45% Uwchradd)
- B : ar sail opsiwn A gan ychwanegu gwanio'r gymhareb disgybl athro gwaethaf mewn ysgol gynradd unigol gyda 0.5 disgybl
- C : ar sail opsiwn A gan ychwanegu gwanio'r gymhareb disgybl athro gwaethaf mewn ysgol gynradd unigol gyda 1 disgybl
- CH : ar sail opsiwn A gan ychwanegu gwanio'r gymhareb disgybl athro gwaethaf mewn ysgol gynradd unigol er mwyn i'r sector gynradd ariannu'r arbediad cyfan (cyfateb i 1.5 disgybl).

**3.7.a** Mae'r fformiwla dyrannu ysgolion cynradd 2016/17 gyda chyfartaledd cymhareb disgybl athro o 21.17:1, gyda'r gymhareb disgybl athro uchaf yn 25.08:1.

**3.7.b** Nodyn eglurhad - mae'r fformiwla dyrannu cynradd wedi ei gynllunio i roi cymhareb disgybl athro gwell (h.y. llai) i'r dosbarthiadau sy'n cynnwys oedran cymysg disgyblion, ac mae Ysgolion sy'n derbyn gwarchodaeth lleiafswm staffio yn diweddu gyda'r gymhareb disgybl athro isaf.

**3.8** Amlygir effaith y gwahanol opsiynau ar y gymhareb disgybl athro yn y fformiwla dyrannu cynradd

- Presennol : cyfartaledd 21.17:1, uchaf 25.08:1
- A : cyfartaledd 22.29:1, uchaf 26.66:1
- B : cyfartaledd 22.64:1, uchaf 27.15:1
- C : cyfartaledd 22.99:1, uchaf 27.64:1
- CH : cyfartaledd 23.31:1, uchaf 28.11:1

**4 Argymhelliad**

**4.1** O ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf o ran sefyllfa gymharol ariannu'r sectorau cynradd ac uwchradd, mae'n ymddangos bod achos dros ystyried symud o Fodel B i gyfeiriad Model CH.

**4.2** Wedi i mi roi cryn ystyriaeth i'r holl faterion rwyf yn argymell gweithredu Model C.

## Gweithgor Cyllid Addysg

**Arbedion £4.3m allan o'r Cwantwm Datganoledig Ysgolion**

| | | Blwyddyn Gyllidol 2015/16 | | | Blwyddyn Gyllidol 2016/17 | | | Blwyddyn Gyllidol 2017/18 | | | Blwyddyn Gyllidol 2018/19 | | | Cyfanswm | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynradd | Uwchradd | Cyfanswm | Cynradd | Uwchradd | Cyfanswm | Cynradd | Uwchradd | Cyfanswm | Cynradd | Uwchradd | Cyfanswm | Cynradd | Uwchradd | Cyfanswm |
| | | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| 1 | **Fformiwla - gwanio cymhareb athro disgybl** | -60,000 | -26,000 | -86,000 | | | 0 | | | 0 | | | 0 | **-60,000** | **-26,000** | **-86,000** |
| 2 | **Ynni** | -200,000 | -150,000 | -350,000 | | | 0 | | | 0 | | | 0 | **-200,000** | **-150,000** | **-350,000** |
| 3 | **Glanhau** | -15,000 | -14,000 | -29,000 | -26,000 | -24,000 | -50,000 | -11,000 | -10,000 | -21,000 | | | 0 | **-52,000** | **-48,000** | **-100,000** |
| 4 | **Pris Cinio Ysgol** | -41,000 | -37,000 | -78,000 | -50,000 | -44,000 | -94,000 | -15,000 | -13,000 | -28,000 | | | 0 | **-106,000** | **-94,000** | **-200,000** |
| 5 | **Brecwast am ddim** | -29,000 | | -29,000 | -21,000 | | -21,000 | | | 0 | | | 0 | **-50,000** | **0** | **-50,000** |
| 6 | **Cwricwlwm Amgen** | | -83,000 | -83,000 | | -59,000 | -59,000 | | | 0 | | | 0 | **0** | **-142,000** | **-142,000** |
| 7 | **Codi Safonau CA3** | | -112,000 | -112,000 | | -80,000 | -80,000 | | | 0 | | | 0 | **0** | **-192,000** | **-192,000** |
| 8 | **Cronfa Maint Dosbarthiadau Mawr CA2** | -185,000 | | -185,000 | -132,000 | | -132,000 | | | 0 | | | 0 | **-317,000** | **0** | **-317,000** |
| 9 | **Trefniadaeth Ysgolion - cynlluniau ar y gweill** | | | 0 | -280,000 | | -280,000 | | | 0 | -65,000 | | -65,000 | **-345,000** | **0** | **-345,000** |
| 10 | **Trefniadaeth Ysgolion - cynlluniau newydd** | | | 0 | | | 0 | | | 0 | -198,000 | | -198,000 | **-198,000** | **0** | **-198,000** |
| | **Cyfanswm** | -530,000 | -422,000 | -952,000 | -509,000 | -207,000 | -716,000 | -26,000 | -23,000 | -49,000 | -263,000 | 0 | -263,000 | **-1,328,000** | **-652,000** | **-1,980,000** |
| | | | | | | | | ***-£1,028,000*** | | | | | | | ***Targed*** | ***£4,300,000*** |
| | | | | | | | | | | | | | | | ***Diffyg*** | ***-£2,320,000*** |

***Eitemau Memorandwm***

| | ***Amrywiadau eraill i cyllid ysgolion*** | ***Blwyddyn Gyllidol 2015/16 Cynradd*** | ***Uwchradd*** | ***Blwyddyn Gyllidol 2016/17 Cynradd*** | ***Uwchradd*** | ***Blwyddyn Gyllidol 2017/18 Cynradd*** | ***Uwchradd*** | ***Blwyddyn Gyllidol 2018/19 Cynradd*** | ***Uwchradd*** | ***Cyfanswm (nid yn gyflawn) Cynradd*** | ***Uwchradd*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***11*** | *Gwir/Rhagolwg addasiad ariannol nifer disgyblion* | *£174,000* | *-£404,000* | *£354,402* | *-£535,649* | *£67,018* | *-£261,114* | *-/+£?* | *-/+£?* | ***£595,420*** | ***-£1,200,763*** |
| ***12*** | *Grant Gwella Addysg* | - | - | *-£?* | *-£?* | *-£?* | *-£?* | *-£?* | *-£?* | ***-£?*** | ***-£?*** |
| ***13*** | *Grant Amddifadedd Disgyblion* | *£190,000* | *£25,000* | *£110,000* | *£73,000* | *-/+£?* | *-/+£?* | *-/+£?* | *-/+£?* | ***£300,000*** | ***£98,000*** |
| ***14*** | *Grant 6ed Dosbarth* | | *-£160,000* | | *-/+£?* | | *-/+£?* | | *-/+£?* | | ***-£160,000*** |

| | ***Balansau*** | ***Ciplun 31 Mawrth 2015 Cynradd*** | ***Uwchradd*** |
|---|---|---|---|
| ***15*** | *Balansau ysgolion - arian* | *£2,613,766* | *£820,055* |
| ***16*** | *Balansau ysgolion - canran o'r dyraniad* | *7.32%* | *2.45%* |

| | ***Prif Grantiau Addysg 2015/16*** | ***Gross (yn cynnwys cyfraniad match lle'n briodol)*** | ***Amcangyfrif elfen o'r grant sy'n ariannu staff parhaol*** |
|---|---|---|---|
| ***17*** | *Grant Gwella Addysg* | *£6,318,220* | *£4,900,000* |
| ***18*** | *Grant Ol 16* | *£3,147,753* | *£3,147,753* |
| ***19*** | *Grant Amddifadedd Ysgolion* | *£1,858,500* | *?* |
| ***20*** | ***+4%*** *Cynnydd yng nghost cyflogi athro yn 2016/17* | | |
| ***21*** | ***+2.5%*** *Cynnydd yng nghost cyflogi cymhorthydd dosbarth yn 2016/17* | | |



**Atodiad 8.1**

**Atodiad 8.2**

**Gwariant cymharol Gwynedd ar Ysgolion 2015/16**

**Crynodeb o'r prif bwyntiau**

**Cyffredinol (rhan 2 y papur)**

- Mewn cyfanswm, a gan ystyried holl wariant ar ysgolion p'run ai wedi'i ddatganoli ai peidio, mae lefel cyllido Gwynedd y 4ydd uchaf drwy Gymru ar sail gros, a'r 3ydd uchaf ar sail net (y gwahaniaeth rhwng ffigyrau gros a net yw bod gros yn cynnwys gwariant ariennir o grantiau penodol, a net ddim). Mae hyn yr un fath â sefyllfa llynedd.

**Cynradd (rhan 4)**

- Mae cyllid fesul disgybl cynradd Gwynedd yr 2il uchaf drwy Gymru ar sail gros a'r uchaf drwy Gymru ar sail net. Llynedd roeddem y 3ydd a'r 4ydd uchaf ar y mesurau yn ôl eu trefn.

- Mae cymhareb disgyblion : athrawon Gwynedd yn y sector yma y 3ydd 'orau' (h.y. isaf) ymysg 22 awdurdod Cymru. Mae hyn yn cymharu â 6ed isaf llynedd.

- O fewn Gwynedd, mae'r darlun mewn ysgolion unigol yn gallu amrywio'n sylweddol oddi wrth y cyfartaledd sirol o £4,700 y disgybl (cyllid datganoledig). Mae tua 1% o'n disgyblion mewn ysgolion sy'n derbyn £8,900 y disgybl ar gyfartaledd (yr ysgolion lleiaf) tra fod tua 31% o'r disgyblion mewn ysgolion sy'n gwario oddeutu £4,200 y pen (ysgolion dros 200 disgybl).

**Uwchradd (rhan 5)**

- Ar sail gros mae cyllid fesul disgybl uwchradd Gwynedd y 6ed uchaf drwy Gymru. O newid i sail net (sy'n gymhariaeth decach p'run bynnag, oherwydd effaith gwahanol batrwm ôl-16 ar y ffigyrau gros), mae safle Gwynedd yn parhau i fod y 6ed uchaf. 'Rydym yn is felly nag yn 2014/15, pan oeddem y 4ydd uchaf ar sail gros a net.

- Er hynny mae maint cyfartalog dosbarthiadau Gwynedd y 'gorau' (lleiaf) drwy Gymru.

**Arbennig (rhan 6)**

- Mae cyllid fesul disgybl Gwynedd (cyllideb ysgolion) y 10fed uchaf drwy Gymru ar sail gros, a'r 9fed uchaf ar sail net. Mae hyn yn cymharu efo 8fed uchaf ar y ddau fesur llynedd.

- Mae hyn yn rhoi darlun pur wahanol i ystadegau Llywodraeth Cymru, sy'n edrych ar y gyllideb ddatganoledig yn unig (lle'r ydym y 17eg uchaf).

- Mae gwahaniaethau sylweddol yn natur / graddfa'r ddarpariaeth a'r ffordd y cofnodir gwariant gan gynghorau yn ei gwneud yn anoddach dod i gasgliadau pendant am wariant cymharol yn y sector yma.

- Mae cymhareb disgybl : athro Gwynedd yn weddol ganolig; yr 11eg isaf drwy Gymru.

**Casgliadau**

- Mae'n debyg fod yna ddau ffactor sydd yn golygu fod gwariant fesul disgybl am amrywio ar draws Cymru – sef dwysedd poblogaeth (y ffaith fod darparu ysgolion mewn ardal fwy gwasgaredig am gostio mwy) ac amddifadedd (sef fod angen gwario mwy ar blant sydd o gefndiroedd difreintiedig os am gael yr un canlyniad).

| 60 | 2049 | GARNDOLBENMAEN | £0 | £226,578 | 21.44 | £0 | -£8,575 | -3.8% | 22.79 | £0 | -£11,037 | -4.9% | 23.20 | £0 | -£13,454 | -5.9% | 23.63 | £0 | -£15,635 | -6.9% | 24.02 |
| 61 | 2111 | YR EIFL | £0 | £220,793 | 21.33 | £0 | -£9,401 | -4.3% | 22.66 | £0 | -£12,100 | -5.5% | 23.08 | £0 | -£14,751 | -6.7% | 23.50 | £0 | -£17,142 | -7.8% | 23.89 |
| 62 | 2185 | CORRIS | £0 | £226,235 | 21.31 | £0 | -£8,734 | -3.9% | 22.65 | £0 | -£11,242 | -5.0% | 23.06 | £0 | -£13,704 | -6.1% | 23.49 | £0 | -£15,926 | -7.0% | 23.88 |
| 63 | 3305 | BEUNO SANT | £0 | £245,578 | 21.19 | £0 | -£8,502 | -3.5% | 22.52 | £0 | -£10,943 | -4.5% | 22.93 | £0 | -£13,340 | -5.4% | 23.35 | £0 | -£15,503 | -6.3% | 23.75 |
| 64 | 2112 | TUDWEILIOG | £0 | £195,761 | 21.12 | £0 | -£8,996 | -4.6% | 22.45 | £0 | -£11,579 | -5.9% | 22.86 | £0 | -£14,115 | -7.2% | 23.28 | £0 | -£16,403 | -8.4% | 23.67 |
| 65 | 2194 | LLANBEDR | £0 | £241,427 | 21.12 | £0 | -£8,737 | -3.6% | 22.44 | £0 | -£11,245 | -4.7% | 22.85 | £0 | -£13,708 | -5.7% | 23.27 | £0 | -£15,930 | -6.6% | 23.66 |
| 66 | 2066 | LLANGYBI | £0 | £219,838 | 21.06 | £0 | -£8,896 | -4.0% | 22.38 | £0 | -£11,450 | -5.2% | 22.79 | £0 | -£13,957 | -6.3% | 23.21 | £0 | -£16,220 | -7.4% | 23.60 |
| 67 | 2214 | FRONGOCH | £0 | £191,374 | 21.01 | £0 | -£8,236 | -4.3% | 22.33 | £0 | -£10,601 | -5.5% | 22.73 | £0 | -£12,923 | -6.8% | 23.15 | £0 | -£15,018 | -7.8% | 23.54 |
| 68 | 2197 | LLANELLTYD | £0 | £234,147 | 21.00 | £0 | -£8,616 | -3.7% | 22.31 | £0 | -£11,090 | -4.7% | 22.72 | £0 | -£13,519 | -5.8% | 23.14 | £0 | -£15,711 | -6.7% | 23.53 |
| 69 | 2036 | CHWILOG | £0 | £187,749 | 20.95 | £0 | -£8,130 | -4.3% | 22.27 | £0 | -£10,464 | -5.6% | 22.67 | £0 | -£12,756 | -6.8% | 23.09 | £0 | -£14,824 | -7.9% | 23.48 |
| 70 | 2098 | RHOSGADFAN | £0 | £199,635 | 20.85 | £0 | -£8,168 | -4.1% | 22.16 | £0 | -£10,513 | -5.3% | 22.56 | £0 | -£12,816 | -6.4% | 22.98 | £0 | -£14,894 | -7.5% | 23.36 |
| 71 | 2085 | PENISARWAEN | £0 | £197,152 | 20.79 | £0 | -£8,119 | -4.1% | 22.10 | £0 | -£10,450 | -5.3% | 22.50 | £0 | -£12,738 | -6.5% | 22.91 | £1,191 | -£13,429 | -6.8% | 23.04 |
| 72 | 2051 | GLANADDA | £0 | £205,334 | 20.50 | £1,460 | -£6,135 | -3.0% | 21.50 | £3,409 | -£6,135 | -3.0% | 21.50 | £5,322 | -£6,135 | -3.0% | 21.50 | £7,049 | -£6,135 | -3.0% | 21.50 |
| 73 | 2075 | BABANOD MORFA NEFYN | £0 | £188,006 | 20.50 | £1,480 | -£5,835 | -3.1% | 21.48 | £3,352 | -£5,835 | -3.1% | 21.48 | £5,191 | -£5,835 | -3.1% | 21.48 | £6,849 | -£5,835 | -3.1% | 21.48 |
| 74 | 3010 | FOELGRON | £322 | £160,589 | 20.16 | £6,074 | £0 | 0.0% | 20.16 | £7,725 | £0 | 0.0% | 20.16 | £9,347 | £0 | 0.0% | 20.16 | £10,810 | £0 | 0.0% | 20.16 |
| 75 | 2183 | BRITHDIR | £1,303 | £164,729 | 19.94 | £7,743 | £0 | 0.0% | 19.94 | £9,592 | £0 | 0.0% | 19.94 | £11,408 | £0 | 0.0% | 19.94 | £13,046 | £0 | 0.0% | 19.94 |
| 76 | 2210 | TALSARNAU | £2,500 | £193,203 | 19.66 | £8,869 | £0 | 0.0% | 19.66 | £10,698 | £0 | 0.0% | 19.66 | £12,493 | £0 | 0.0% | 19.66 | £14,114 | £0 | 0.0% | 19.66 |
| 77 | 2097 | RHIWLAS | £9,423 | £172,926 | 18.04 | £15,384 | £0 | 0.0% | 18.04 | £17,095 | £0 | 0.0% | 18.04 | £18,775 | £0 | 0.0% | 18.04 | £20,292 | £0 | 0.0% | 18.04 |
| 78 | 2118 | BABANOD COED MAWR | £10,541 | £203,126 | 17.76 | £16,388 | £0 | 0.0% | 17.76 | £18,066 | £0 | 0.0% | 17.76 | £19,714 | £0 | 0.0% | 17.76 | £21,202 | £0 | 0.0% | 17.76 |
| 79 | 2035 | CWM Y GLO | £12,158 | £163,845 | 17.22 | £17,570 | £0 | 0.0% | 17.22 | £19,124 | £0 | 0.0% | 17.22 | £20,650 | £0 | 0.0% | 17.22 | £22,027 | £0 | 0.0% | 17.22 |
| 80 | 2192 | EDMWND PRYS | £19,172 | £192,544 | 15.82 | £24,648 | £0 | 0.0% | 15.82 | £26,221 | £0 | 0.0% | 15.82 | £27,764 | £0 | 0.0% | 15.82 | £29,157 | £0 | 0.0% | 15.82 |
| 81 | 2216 | FRIOG | £23,357 | £185,587 | 14.60 | £28,289 | £0 | 0.0% | 14.60 | £29,705 | £0 | 0.0% | 14.60 | £31,095 | £0 | 0.0% | 14.60 | £32,350 | £0 | 0.0% | 14.60 |
| 82 | 2078 | BALADEULYN | £24,260 | £163,210 | 14.54 | £29,313 | £0 | 0.0% | 14.54 | £30,764 | £0 | 0.0% | 14.54 | £32,188 | £0 | 0.0% | 14.54 | £33,474 | £0 | 0.0% | 14.54 |
| 83 | 2215 | IEUAN GWYNEDD | £24,453 | £172,156 | 14.16 | £29,139 | £0 | 0.0% | 14.16 | £30,484 | £0 | 0.0% | 14.16 | £31,805 | £0 | 0.0% | 14.16 | £32,997 | £0 | 0.0% | 14.16 |
| 84 | 2187 | DINAS MAWDDWY | £27,016 | £168,319 | 13.10 | £31,189 | £0 | 0.0% | 13.10 | £32,386 | £0 | 0.0% | 13.10 | £33,563 | £0 | 0.0% | 13.10 | £34,624 | £0 | 0.0% | 13.10 |
| 85 | 3023 | LLANYSTUMDWY | £27,911 | £150,335 | 12.88 | £32,043 | £0 | 0.0% | 12.88 | £33,229 | £0 | 0.0% | 12.88 | £34,394 | £0 | 0.0% | 12.88 | £35,446 | £0 | 0.0% | 12.88 |
| 86 | 2010 | BEDDGELERT | £32,414 | £163,590 | 12.66 | £37,018 | £0 | 0.0% | 12.66 | £38,340 | £0 | 0.0% | 12.66 | £39,638 | £0 | 0.0% | 12.66 | £40,810 | £0 | 0.0% | 12.66 |
| 87 | 2059 | LLANAELHAEARN | £33,354 | £168,273 | 12.44 | £37,903 | £0 | 0.0% | 12.44 | £39,209 | £0 | 0.0% | 12.44 | £40,492 | £0 | 0.0% | 12.44 | £41,649 | £0 | 0.0% | 12.44 |
| 88 | 2198 | Y GARREG | £31,317 | £154,911 | 12.38 | £35,542 | £0 | 0.0% | 12.38 | £36,754 | £0 | 0.0% | 12.38 | £37,945 | £0 | 0.0% | 12.38 | £39,020 | £0 | 0.0% | 12.38 |
| 89 | 2081 | NEBO | £33,454 | £166,590 | 12.16 | £37,790 | £0 | 0.0% | 12.16 | £39,035 | £0 | 0.0% | 12.16 | £40,257 | £0 | 0.0% | 12.16 | £41,360 | £0 | 0.0% | 12.16 |
| 90 | 2009 | ABERSOCH | £19,188 | £148,865 | 11.84 | £22,532 | £0 | 0.0% | 11.84 | £23,492 | £0 | 0.0% | 11.84 | £24,434 | £0 | 0.0% | 11.84 | £25,285 | £0 | 0.0% | 11.84 |
| 91 | 2047 | FELINWNDA | £36,145 | £158,355 | 11.66 | £40,432 | £0 | 0.0% | 11.66 | £41,663 | £0 | 0.0% | 11.66 | £42,872 | £0 | 0.0% | 11.66 | £43,963 | £0 | 0.0% | 11.66 |
| 92 | 2207 | PENNAL | £35,250 | £167,075 | 11.50 | £39,317 | £0 | 0.0% | 11.50 | £40,485 | £0 | 0.0% | 11.50 | £41,631 | £0 | 0.0% | 11.50 | £42,666 | £0 | 0.0% | 11.50 |
| 93 | 2191 | GANLLWYD | £52,585 | £171,516 | 7.94 | £55,999 | £0 | 0.0% | 7.94 | £56,979 | £0 | 0.0% | 7.94 | £57,942 | £0 | 0.0% | 7.94 | £58,810 | £0 | 0.0% | 7.94 |
| | | **cyfanswm cynradd / total primary** | **£456,123** | **£35,904,099** | | **£556,123** | **-£1,278,538** | **-3.6%** | | **£587,808** | **-£1,642,151** | **-4.6%** | | **£618,923** | **-£1,999,219** | **-5.6%** | | **£648,190** | **-£2,320,043** | **-6.5%** | |
| | | nifer ysgolion gwarchodaeth / number of safeguarded schools | 20 | | | 22 | | | | 22 | | | | 22 | | | | 23 | | | |
| | | lleiaf / lowest | £322 | £148,865 | 7.94 | £1,460 | -£48,589 | | 7.94 | £3,352 | -£62,538 | | 7.94 | £5,191 | -£76,236 | | 7.94 | £1,191 | -£88,597 | | 7.94 |
| | | cyfartaledd / average | £22,806 | £386,066 | 21.17 | £25,278 | -£13,748 | | 22.29 | £26,719 | -£17,658 | | 22.64 | £28,133 | -£21,497 | | 22.99 | £28,182 | -£24,947 | | 23.31 |
| | | uchaf / highest | £52,585 | £1,382,447 | 25.08 | £55,999 | £0 | | 26.66 | £56,979 | £0 | | 27.15 | £57,942 | £0 | | 27.64 | £58,810 | £0 | | 28.11 |

# Modelu Arbedion PTR Ysgolion Uwchradd

# Model Secondary Schools PTR Savings

**Atodiad 8-6**

**Appendix 8-6**

| | | | Rhagolwg 2016/17 cyn arbedion / 2016/17 Projection prior to savings (nifer disgyblion Medi 2015/ Sept 2015 pupil numbers) | | A | | | | B | | | | C | | | | CH | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Safeguarding | Allocation | Safeguarding | gwanio PTR pro-rata i'r dyraniad 45% / weaken the PTR pro-rata to the allocation 45% | cyfanswm gwanio PTR + Cwricwlwm Amgen a Cynnal Safonau CA3 / total weakened PTR + Alternative Curriculum and Maintaining Standards KS3 | | Safeguarding | gwanio PTR pro-rata i'r dyraniad 45% llai arbedion pellach 0.5 cynradd / weakened PTR pro-rata to allocation 45% less further savings of 0.5 primary | cyfanswm gwanio PTR + Cwricwlwm Amgen a Cynnal Safonau CA3 / total weakened PTR + Alternative Curriculum and Maintaining Standards KS3 | | Safeguarding | gwanio PTR pro-rata i'r dyraniad 45% llai arbedion pellach 1.0 cynradd / weakened PTR pro-rata to allocation 45% less further savings of 1.0 primary | cyfanswm gwanio PTR + Cwricwlwm Amgen a Cynnal Safonau CA3 / total weakened PTR + Alternative Curriculum and Maintaining Standards KS3 | | Safeguarding | peidio gwanio PTR uwchradd o gwbwl / no weakening of the secondary PTR | cyfanswm gwanio PTR + Cwricwlwm Amgen a Cynnal Safonau CA3 / total weakened PTR + Alternative Curriculum and Maintaining Standards KS3 | |
| 1 | 4002 | DYFFRYN OGWEN | £0 | £1,642,574 | £0 | -£67,025 | -£75,805 | -4.6% | £0 | -£43,064 | -£51,844 | -3.1% | £0 | -£20,456 | -£29,236 | -1.8% | £0 | £0 | -£8,780 | -0.5% |
| 2 | 4003 | BOTWNNOG | £0 | £1,835,700 | £0 | -£75,729 | -£85,158 | -4.6% | £0 | -£48,656 | -£58,086 | -3.1% | £0 | -£23,112 | -£32,542 | -1.8% | £0 | £0 | -£9,430 | -0.5% |
| 3 | 4004 | BRYNREFAIL | £0 | £2,687,347 | £0 | -£112,288 | -£123,639 | -4.6% | £0 | -£72,146 | -£83,497 | -3.1% | £0 | -£34,270 | -£45,621 | -1.7% | £0 | £0 | -£11,351 | -0.4% |
| 4 | 4007 | DYFFRYN NANTLLE | £0 | £1,995,583 | £0 | -£76,214 | -£85,914 | -4.3% | £0 | -£48,968 | -£58,668 | -2.9% | £0 | -£23,260 | -£32,960 | -1.6% | £0 | £0 | -£9,700 | -0.5% |
| 5 | 4009 | EIFIONYDD | £0 | £1,770,751 | £0 | -£73,930 | -£83,224 | -4.7% | £0 | -£47,500 | -£56,795 | -3.2% | £0 | -£22,563 | -£31,857 | -1.8% | £0 | £0 | -£9,294 | -0.5% |
| 6 | 4030 | Y GADER | £0 | £2,028,076 | £0 | -£69,810 | -£79,212 | -3.9% | £0 | -£44,853 | -£54,256 | -2.7% | £0 | -£21,306 | -£30,708 | -1.5% | £0 | £0 | -£9,403 | -0.5% |
| 7 | 4031 | Y MOELWYN | £0 | £1,680,714 | £0 | -£63,710 | -£72,477 | -4.3% | £0 | -£40,934 | -£49,701 | -2.9% | £0 | -£19,444 | -£28,211 | -1.7% | £0 | £0 | -£8,767 | -0.5% |
| 8 | 4032 | TYWYN | £1,297 | £1,412,253 | £59,944 | £0 | -£8,293 | -0.6% | £38,978 | £0 | -£8,293 | -0.6% | £19,196 | £0 | -£8,293 | -0.6% | £1,297 | £0 | -£8,293 | -0.6% |
| 9 | 4033 | Y BERWYN | £49,468 | £1,364,895 | £105,595 | £0 | -£8,144 | -0.6% | £85,530 | £0 | -£8,144 | -0.6% | £66,598 | £0 | -£8,144 | -0.6% | £49,468 | £0 | -£8,144 | -0.6% |
| 10 | 4034 | ARDUDWY | £0 | £1,510,177 | £15,151 | -£43,992 | -£52,448 | -3.5% | £0 | -£38,000 | -£46,455 | -3.1% | £0 | -£18,050 | -£26,506 | -1.7% | £0 | £0 | -£8,455 | -0.6% |
| 11 | 4036 | FRIARS | £0 | £4,321,543 | £0 | -£172,324 | -£186,963 | -4.3% | £0 | -£110,719 | -£125,358 | -2.9% | £0 | -£52,592 | -£67,231 | -1.6% | £0 | £0 | -£14,639 | -0.3% |
| 12 | 4037 | TRYFAN | £0 | £1,849,637 | £0 | -£77,465 | -£87,327 | -4.7% | £0 | -£49,772 | -£59,634 | -3.2% | £0 | -£23,642 | -£33,504 | -1.8% | £0 | £0 | -£9,863 | -0.5% |
| 13 | 4039 | SYR HUGH OWEN | £0 | £3,249,811 | £0 | -£122,773 | -£134,503 | -4.1% | £0 | -£78,882 | -£90,612 | -2.8% | £0 | -£37,470 | -£49,199 | -1.5% | £0 | £0 | -£11,730 | -0.4% |
| 14 | 4040 | GLAN Y MOR | £0 | £2,281,959 | £0 | -£92,894 | -£103,379 | -4.5% | £0 | -£59,685 | -£70,170 | -3.1% | £0 | -£28,351 | -£38,836 | -1.7% | £0 | £0 | -£10,485 | -0.5% |
| **cyfanswm uwchradd / total secondary** | | | **£50,765** | **£29,631,020** | **£180,690** | **-£1,048,153** | **-£1,186,487** | **-4.0%** | **£124,508** | **-£683,179** | **-£821,512** | **-2.8%** | **£85,793** | **-£324,514** | **-£462,847** | **-1.6%** | **£50,765** | **£0** | **-£138,333** | **-0.5%** |

Eitem 9

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 18 Tachwedd 2015 |
| **TEITL** | Newid Cytundeb Lefel Gwasanaeth Clercio Llywodraethol |
| **PWRPAS** | Gofynnir am gytundeb gan y Fforwm Cyllid Ysgolion |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth Clerciol Llywodraethol |
| **AWDUR** | Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

## 1. Cefndir

1.1 Argymell rhoi elfen Cynghori'r Corff Llywodraethol i mewn yn y CLG.

1.2 Argymell codi'r pris am CLG i gyd-fynd a lefel yr oriau sydd angen i wneud y dyletswyddau yn briodol ac i safon.

1.3 Argymell cynnig Gwasanaeth Ymestynnol yn ychwanegol ond am bris yn ôl y defnydd, cyfarfodydd ychwanegol i'r 6 arferol, e.e., Pwyllgorau Statudol y corff.

ATODIAD 1 Cytundeb Lefel Gwasanaeth Clercio Llywodraethol yr Awdurdod.

## 2. Casgliad

2.1 Nodwyd nad oedd cydnabyddiaeth ddigonol i'r amser a gymerir i wneud y gwaith clercio yn gyflawn ac i safon.

2.2 Ymgynghorwyd gyda Swyddogion Gweinyddol Ysgolion Uwchradd yr Awdurdod a chlercod Ysgolion cynradd er mwyn dod i gyfartaledd oriau a gymerir i gwblhau'r holl gyfrifoldebau yn y ddwy sector.

2.3 Nodwyd bod angen rhoi elfen o wasanaeth Cynghori i gyrff Llywodraethol.

## 3. Argymhelliad

3.1 Gofynnir i'r Fforwm Cyllid Ysgolion am gytuno i'r newid yn y CLG ac i ganiatáu'r argymhelliad ar gyfer y pris:

£1500 Ysgolion Cynradd
£2500 Ysgolion Uwchradd

**Cytundeb Lefel Gwasanaeth**
**Gwasanaeth Clerigol i Gyrff Llywodraethol Ysgolion Gwynedd**

Addysg

**1 af xxxx 201x – 31ain xxxx 201x**

**CYNNWYS**


**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Y Cytundeb
1.2 Y Gwasanaeth
1.3 Dulliau Darparu
1.4 Cyfrinachedd
1.5 Datrys anghydfod
1.6 Hyd y Cytundeb
1.7 Amodau terfynu cytundeb

**2.0 Pecynnau Craidd**

2.1 A Pecyn Gweinyddol Craidd ynghyd â Chynghori'r Corff Llywodraethol
2.2 B Gwasanaeth Estynedig – codir tâl yn ôl defnydd

**3.0 Pris y Cytundeb**

## 1.0 CYFLWYNIAD

### 1.1 Y Cytundeb

Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) yw hwn rhwng y Gwasanaeth Ysgolion ac Ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig unigol Gwynedd i ddarparu cefnogaeth glerigol ac arweiniad i'r Corff Llywodraethol.

### 1.2 Y Gwasanaeth

**Cynigir :**

**A Gweinyddol Craidd ynghyd â Chynghori'r Corff Llywodraethol**
**B Gwasanaeth Estynedig – codir tâl yn ôl defnydd**

Prif amcanion y gwasanaeth yw cefnogi gweinyddiaeth effeithiol i gyrff llywodraethol.
Bwriad y cytundeb yw sicrhau bod penaethiaid a llywodraethwyr yn derbyn arweiniad a chefnogaeth ddigonol i gyflawni'r gofynion statudol sy'n ofynnol i gyrff llywodraethol. Bydd y cytundeb hwn yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol a osodir gan Llywodraeth Cymru a chan Gyngor Gwynedd.

### 1.3 Dulliau Darparu

Darperir y gwasanaeth gan y Gwasanaeth Ysgolion. Cyflogir Clercod Llywodraethol wedi eu hyfforddi yn benodol ar gyfer cyflawni gofynion y Gwasanaeth o dan oruchwyliaeth Cymhorthydd Cefnogi Llywodraethwyr a Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol. Byddant yn gweithredu fel Uned Gefnogi Llywodraethwyr er mwyn sicrhau cysondeb a dilyniant i'r Gwasanaeth ond hefyd bydd gan bob unigolyn ysgol/ion b/penodedig er mwyn darparu cyswllt personol ac uniongyrchol.

Cyfrifoldeb y Cymhorthydd Cefnogi Llywodraethwyr a'r Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol fel rhan o'u rôl cleient fydd goruchwylio gwaith y Gwasanaeth gan sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda'r penaethiaid a chadeiryddion cyrff llywodraethol gan gynnwys hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff y Gwasanaeth. Darperir trefniadau monitro ac adrodd ar y gwasanaeth.

Cyflogir cyfieithwyr proffesiynol i ddarparu gwasanaeth cyfieithu dogfennau'r Corff Llywodraethol i'r ysgolion er mwyn iddynt gyfarfod â gofynion y Polisi Iaith a'r Comisiynydd Iaith. Darperir Offer Cyfieithu ar y pryd am ddim i'r ysgolion drwy drefniant gyda'r cyfieithwyr, ond disgwylir i'r ysgolion drefnu cyfieithydd ar y pryd ac i ysgwyddo'r gost eu hunain.

### 1.4 Cyfrinachedd

Bydd y Gwasanaeth Ysgolion yn sicrhau bod data yn cael eu storio yn ddiogel ac nad oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â chyfrinachedd gwybodaeth. Bydd y Gwasanaeth Ysgolion yn cydymffurfio'n llawn â'r ddeddfwriaeth gwarchod data.

| 1.5 | Datrys Anghydfod |
|---|---|

Dylid cyfeirio unrhyw gŵyn neu sylwadau am y gwasanaeth yn ysgrifenedig at sylw'r Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol cyn gynted ag y bo modd. Bydd y rheolwyr, trwy drafodaeth, yn ceisio datrys unrhyw wahaniaethau barn ynglŷn â chynnwys neu weithrediad y cytundeb hwn. Oni lwyddir i ddatrys y gwahaniaeth trwy drafodaeth cyfeirir y mater at yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg am benderfyniad.

| 1.6 | Hyd y Cytundeb |
|---|---|

Cynigir cytundeb 3 blynedd o 1 xxxx 201x hyd at 31 xxxx 201x.

| 1.7 | Terfynu'r Cytundeb |
|---|---|

Rhoddir 3 mis o rybudd ysgrifenedig cyn terfynu'r cytundeb gan y naill ochr neu'r llall.

## 2.0 Pecyn Gweinyddol Craidd ynghyd â Chynghori'r Corff Llywodraethol

Mae'r CLG yn fodd o sicrhau bod gan ysgol drefn glir sy'n cydymffurfio ag Offerynnau Statudol Llywodraeth Cymru ac yn cynnig gwarchodaeth rhag methu â chyfarfod â gofynion statudol.

| 2.1 | Gwasanaeth | Safonau | Amserlen | Cyfrifoldebau Clerc y Llywodraethwyr | Cyfrifoldebau'r Ysgol/Corff Llywodraethu |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.1.1. | Paratoi rhaglen ar gyfer cyfarfodydd y Corff Llywodraethol. | Cadarnhau'r rhaglen a gofalu ei bod yn gywir, yn unol â chyfarwyddyd y Cadeirydd. | I'w hanfon at aelodau'r corff llywodraethu 5 niwrnod gwaith cyn y cyfarfod. | Cydweithio gyda'r Cadeirydd a'r Pennaeth ar gynnwys rhaglen cyfarfodydd. | Cadarnhau gyda'r Cadeirydd a'r Clerc ar gynnwys y rhaglen:<br>• Eitemau safonol arferol, ee, ymddiheuriadau,<br>• Eitemau safonol arferol yn ôl amserlen blwyddyn, ee, penodi swyddogion a phaneli.<br>• Eitemau yn ôl pwysigrwydd , ee, materion statudol,<br>• Eitemau yn ôl pennawd, ee, staffio, adeiladau. |
| 2.1.2 | Trefnu bod y papurau cefndirol yn cael eu hanfon gyda'r rhaglen. | Gofalu bod y papurau priodol wedi eu derbyn gan y Pennaeth. | I'w hanfon at aelodau'r corff llywodraethu 5 niwrnod gwaith cyn y cyfarfod. | Derbyn papurau gan y Pennaeth a'r Cadeirydd a'u darparu ar gyfer aelodau'r Corff Llywodraethol. | Gofalu bod y papurau priodol ar gael i'r Clerc, 5 niwrnod cyn y cyfarfod. |
| 2.1.3 | Gweithredu ar faterion yn codi o gyfarfod y llywodraethwyr. | Cadw cofnod cywir o'r materion y mae angen gweithredu arnynt a delio'n briodol. | Angen gweithredu yn unol â chais y Corff Llywodraethol ac erbyn y cyfarfod nesaf. | Gwirio gyda'r Cadeirydd ar unrhyw faterion y gweithredwyd arnynt rhwng cyfarfodydd ac sydd angen eu hadrodd i'r Corff Llywodraethol. | Cadarnhau cywirdeb a chynghori'r Clerc ynglŷn ag unrhyw faterion sydd angen gweithrediad arnynt rhwng cyfarfodydd. |
| 2.1.4 | Mynychu cyfarfodydd y Corff Llywodraethol llawn. | Bod yn bresennol ar yr amser priodol i gofnodi yng nghyfarfodydd y Corff Llywodraethol llawn. | Gofalu bod ar gael ychydig cyn amser dechrau'r cyfarfod er mwyn cadarnhau trefniadau gyda'r Pennaeth a'r Cadeirydd. | Mynychu cyfarfodydd y Corff Llywodraethol llawn. Sicrhau bod y Corff Llywodraethol yn cynnal o leiaf un cyfarfod llawn y tymor.<br><br>Ni ddisgwylir i unrhyw gyfarfod barhau am fwy na 2 awr. Pennir cost ychwanegol am bob ¼ awr ychwanegol.<br><br>**Mynychu hyd at 6 chyfarfod llawn yn flynyddol**<br>- Mae'n statudol i Gorff Llywodraethol gynnal o leiaf un cyfarfod o'r Corff Llawn yn dymhorol.<br><br>- Hyd at 2 awr ar gyfer y cyfarfod. (Ni ddisgwylir i unrhyw gyfarfod barhau am fwy na 2 awr.) | Dylai'r Corff Llywodraethol gynnal o leiaf un cyfarfod llawn bob tymor. Ni ddisgwylir i unrhyw gyfarfod barhau am fwy na 2 awr. Byddai'r gost o glercio'r cyfarfodydd sydd yn mynd dros 2 awr yn cael ei hysgwyddo gan yr ysgol.<br><br>Gall y Corff Llywodraethol fod angen mwy na 6 chyfarfod yn flynyddol. Byddai'r gost o glercio'r cyfarfodydd ychwanegol yn cael ei hysgwyddo gan yr ysgol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.1.5 | Sicrhau bod y Corff Llywodraethu yn pennu dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd ymlaen llaw a bod yr wybodaeth honno yn hysbys i'r Awdurdod Lleol (ALl). | Cadw cofnod o'r dyddiadau. Hysbysu aelodau'r Corff Llywodraethol o'r holl ddyddiadau ynghyd â'r ALl. | Pennu'r dyddiadau am y flwyddyn yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn academaidd. | Gofalu bod holl aelodau'r Corff llywodraethol yn ymwybodol o'r dyddiadau a bennwyd. Pe byddai newid dyddiadau yn ystod y flwyddyn, disgwylir i'r Clerc hysbysu aelodau'r Corff Llywodraethol am unrhyw newid. | Dylid ymgeisio i bennu dyddiadau yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn academaidd. Dylid ceisio cadw at y dyddiadau gwreiddiol. Pe byddai newid, dylid gofalu bod y Clerc yn ymwybodol o unrhyw newid o leiaf 10 niwrnod cyn cynnal y cyfarfod. |
| 2.1.6. | Cynhyrchu ac anfon copïau drafft o'r cofnodion i'r Cadeirydd a'r Pennaeth cyn creu fersiwn derfynol i'w dosbarthu i bob aelod o'r Corff Llywodraethol a'r ALl. | Cadw cofnodion clir, cryno a chywir o gyfarfodydd y Corff Llywodraethol. | Disgwylir i'r Clerc gyflwyno fersiwn ddrafft o'r cofnodion o fewn 5 niwrnod i'r Cadeirydd a'r Pennaeth. | • Dylai'r cofnodion fod yn gofnod cywir o drafodaeth y cyfarfod.<br>• Dylent fod yn gryno ond nid ar ffurf nodiadau.<br>• Dylent fod yn ddealladwy i unrhyw aelod o'r Corff nad oedd yn bresennol ar y noson.<br>• Ni ddylid enwi unigolion.<br><br>Cyflwyno'r cofnodion drafft i'r Pennaeth a'r Cadeirydd o fewn 5 niwrnod. Gwneud unrhyw newidiadau a gynigiwyd mor fuan â phosibl.<br><br>Disgwylir i'r Clerc anfon y cofnodion gorffenedig i sylw'r Pennaeth/Swyddog Gweinyddol ar gyfer eu cyfieithu mor fuan â phosibl, ond o leiaf 20 niwrnod ysgol cyn y cyfarfod nesaf.<br><br>Disgwylir i'r Clerc anfon y cofnodion gorffenedig at yr ALl gan nodi eu bod heb eu cadarnhau. | Disgwylir i'r Pennaeth a'r Cadeirydd wirio'r cofnodion drafft yn fanwl, a chadarnhau unrhyw newidiadau gyda'r Clerc mor fuan â phosibl.<br><br>Disgwylir i'r Pennaeth a'r Cadeirydd gadarnhau bod y cofnodion yn derfynol ac yn iawn i'w dosbarthu i aelodau'r Corff Llywodraethol ac i'r ALl.<br><br>Disgwylir i'r Pennaeth/Swyddog Gweinyddol drefnu anfon unrhyw gofnodion ynghyd â phapurau cefndirol at y cyfieithydd ar gyfer cyfieithu'r ddogfennaeth. |
| 2.1.7 | Cofnodi presenoldeb llywodraethwyr mewn cyfarfodydd a rhagrybuddio unrhyw lywodraethwr sydd mewn perygl o'i ddatgymhwyso oherwydd diffyg presenoldeb. | Cadw cofnodion cywir o bresenoldeb ac ymddiheuriadau. | Disgwylir i'r clerc gadw cofnodion cywir yn y cyfarfod. | • Dylai'r cofnodion nodi presenoldeb.<br>• Dylai'r cofnodion nodi ymddiheuriadau a bod y Corff Llywodraethol yn derbyn yr ymddiheuriadau.<br>• Dylai'r cofnodion wahaniaethu rhwng ymddiheuriadau ac absenoldebau.<br>• Dylai'r Clerc ragrybuddio'r Corff Llywodraethol os yw aelod o'r corff yn absennol heb ymddiheuro am dros 6 mis. Ar gais y Corff dylai'r Clerc anfon llythyr at yr aelod i'w ragrybuddio a nodi ei fod mewn perygl o'r ddatgymhwyso.<br>• Dylai'r Clerc adael i'r ALl wybod am unrhyw ddatgymhwysiad. | Disgwylir i'r Pennaeth a'r Cadeirydd gadarnhau bod y cofnodion yn gywir ym mhob cyfarfod.<br><br>Disgwylir i'r Pennaeth a'r Cadeirydd gadw llygaid ar absenoldebau'r aelodau sydd ddim yn ymddiheuro.<br><br>Disgwylir i'r Pennaeth a'r Cadeirydd gydweithio â'r Clerc mewn materion o ddatgymhwyso llywodraethwr. Ni ddylai'r Clerc orfod gweithio ar ei ben/phen ei hun.<br><br>Disgwylir i'r Pennaeth a'r Cadeirydd adael i'r ALl wybod am unrhyw ddatgymhwysiad. |
| 2.1.8 | Cadw cofnod o dymor gwasanaeth pob llywodraethwr gan gysylltu â'r ALl ar achlysuron pan fo cyfnod gwasanaeth yn dod i ben, neu pan fo ymddiswyddiadau | Cadw cofnod cywir o hyd tymor y llywodraethwyr . Rhannu gwybodaeth gyda'r | Disgwylir bod cofrestr ar gael yn nodi dyddiad cychwyn a gorffen pob llywodraethwr yn unol â chofnodion y Corff Llywodraethol. | • Disgwylir i'r Clerc gadw cofnod o hyd tymor pob Llywodraethwyr gan ragrybuddio'r Corff Llywodraethol pan fo tymor yn dod i ben. Dylid ei roi fel eitem ar yr agenda.<br>• Disgwylir i'r Clerc dynnu sylw'r Pennaeth a'r Cadeirydd at unrhyw seddi gweigion. | Disgwylir i'r Pennaeth a'r Cadeirydd gadarnhau bod y gofrestr yn gywir.<br><br>Disgwylir i'r Pennaeth a'r Cadeirydd dynnu sylw'r corff Llywodraethol at unrhyw seddi gweigion ar y Corff Llywodraethol, a thrwy'r gweithdrefnau priodol ymgeisio i lenwi unrhyw sedd wag ar y Corff |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Awdurdod Lleol a’r Corff Llywodraethol | | • Disgwylir i’r Clerc hysbysu’r ALl am unrhyw newid pan fo llywodraethwyr yn ymddiswyddo.<br>• Disgwylir i’r clerc hysbysu’r ALl pan fo aelod newydd yn dechrau. Dylid nodi :<br>- enw a chyfeiriad llawn<br>- e-bost / ffôn<br>- categori llywodraethwr<br>- dyddiad cychwyn<br>- | Llywodraethol. |
| 2.1.9 | Gohebu ar ran y Corff Llywodraethol, yn ôl yr angen. | Cywirdeb y cofnod ar gyfer yr ohebiaeth. | Paratoi ac anfon yr ohebiaeth mor fuan â phosib yn dilyn y cyfarfod llywodraethol, ond o fewn 10 niwrnod. | • Disgwylir i’r Clerc anfon copi electronig i’r Pennaeth a’r Cadeirydd cyn anfon unrhyw ohebiaeth allan.<br>• Disgwylir i’r Clerc adrodd ar unrhyw ymateb ddaeth yn sgil gohebu i’r Corff Llywodraethol. | • Disgwylir i’r Pennaeth a/neu’r Cadeirydd wirio unrhyw gopïau electronig dderbyniwyd gan y Clerc gan nodi unrhyw newidiadau gyda’r troad i sylw’r Clerc. |
| 2.1.10 | Cadw trefn ar gofnodion, gohebiaeth a dogfennau eraill yng nghyswllt gwaith y Corff Llywodraethol. | Cofnodion ar gael yn gronolegol. | Disgwylir i’r Clerc gadw’r cofnodion fesul dyddiad wedi’u harwyddo gan y Cadeirydd. | • Disgwylir i’r Clerc gadw’r cofnodion fesul dyddiad.<br>• Dylai’r Cadeirydd ardystio pob tudalen<br>• Dylai’r tudalennau fod wedi eu rhifo<br>• Rhaid i’r cofnodion fod ar gael i’r cyhoedd pe bai gofyn. | • Disgwylir i’r Pennaeth fod yn ymwybodol o ble cedwir y cofnodion a bod fersiwn heb enwau a heb gyfeiriad at faterion cyfrinachol ar gael i’r cyhoedd. |
| 2.1.11 | Cynorthwyo’r Pennaeth, Cadeirydd a’r Corff Llywodraethol i baratoi Adroddiad Blynyddol i Rieni. | Bod yn gymorth i’r Pennaeth, Cadeirydd wrth baratoi’r Adroddiad Blynyddol. | | • Disgwylir i’r Clerc gynghori’r Pennaeth, Cadeirydd o’r materion statudol ddylai fod yn yr Adroddiad Blynyddol i Rieni.<br>• Disgwylir i’r Clerc greu’r Adroddiad Blynyddol i Rieni drwy drafodaeth gyda’r Pennaeth. | • Disgwylir i’r Pennaeth/Swyddog Gweinyddol yr Ysgol drefnu dosbarthu’r Adroddiad i’r rhieni.<br>• Disgwylir i’r Pennaeth/Swyddog Gweinyddol yr Ysgol drefnu cyfieithu’r Adroddiad i’r rhieni. |
| 2.1.12 | Hyfforddiant i’r Corff Llywodraethol ac i’r Clerc | Gofalu bod y wybodaeth ddiweddaraf am gyrsiau ar gael i’r Llywodraethwyr. | Gofalu bod yr wybodaeth am gyrsiau wedi ei throsglwyddo mewn da bryd i’r llywodraethwyr. | • Disgwylir i’r Clerc anfon unrhyw wybodaeth am gyrsiau ymlaen i aelodau’r Corff Llywodraethol.<br>• Disgwylir i’r Clerc annog ac atgoffa Llywodraethwyr i fynychu cyrsiau.<br>• Disgwylir i’r Clerc fod yn barod i gynorthwyo’r Cymhorthydd Cefnogi Llywodraethwyr i drefnu cyrsiau yn lleol . | • Dylai’r Pennaeth, y Cadeirydd a’r Corff Llywodraethol gefnogi sesiynau hyfforddiant a drefnwyd ar eu cyfer. |
| 2.1.13 | Hysbysu’r Pennaeth/Cadeirydd o sefyllfa ble mae Llywodraethwyr heb fynychu Cwrs Mandadol | Gofalu bod yr wybodaeth yn gywir | Gofalu bod y Llywodraethwr wedi cael y rhybudd o’r Cyrsiau Mandadol | • Disgwylir i’r Clerc baratoi llythyr atal/ diswyddo Llywodraethwr sydd heb fynychu Cwrs Mandadol oddi fewn y terfynau amser priodol.<br>• Dylai’r Clerc ofalu bod eitem ar agenda yn rhybuddio Llywodraethwyr eu bod mewn perygl o gael eu hatal/diswyddo.<br>• Dylai’r Clerc gyflwyno’r llythyr i’r Cadeirydd i’w ardystio. | • Dylai’r Pennaeth fod yn ymwybodol os yw Llywodraethwyr angen mynd ar Gwrs Mandadol.<br>• Ni ddylai unrhyw Lywodraethwr anghymwys weithredu ar unrhyw Banel Statudol. |
| 2.1.14 | Gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a Buddiannau Llywodraethwyr | Gofalu bod DBS a Buddiant y Llywodraethwyr | Disgwylir i’r Clerc ofalu fod Dadleniad DBS a Datganiad Buddiant pob | • Disgwylir i’r Clerc fod wedi trefnu i anfon pecyn llywodraethwr newydd i bob llywodraethwr neu fod wedi hysbysu’r ALl, disgwylir i’r pecyn gynnwys | • Dylai’r Pennaeth wirio ffurflenni DBS y llywodraethwyr a’u hanfon at yr ALl, neu gyd gordio hyn gyda’r Clerc. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | wedi eu cwblhau | llywodraethwr yn gyfredol. | ffurflen DBS.<br>• Disgwylir i'r Clerc fod wedi gofalu derbyn ffurflen Datganiad Troseddol wedi ei chwblhau gan lywodraethwyr newydd cyn eu cyfarfod cyntaf.<br>• Disgwylir i'r Clerc fod wedi anfon y ffurflen wedi ei chwblhau at yr ALl neu gydgordio hyn gyda'r Pennaeth..<br>• Disgwylir i'r Clerc gadw cofnod o rifau Dadleniad y DBS a'i fod yn gyfredol.<br>• Disgwylir i'r Clerc gadw taflenni Buddiannau Llywodraethwyr a threfnu i'w hail gyflwyno'n flynyddol | • Dylai'r Pennaeth wirio fod rhif Dadleniad DBS gan bob Llywodraethwr a bod y Dadleniad yn gyfredol.<br>• Dylai'r Pennaeth wirio fod ffurflen Buddiannau wedi cael ei chwblhau gan y llywodraethwyr yn flynyddol. |

### 2.1.15 **Gwasanaeth Cynghori'r Corff Llywodraethol**

- Rhoi arweiniad ar gyfrifoldebau cyfreithiol statudol y corff llywodraethol;
- Sicrhau bod cyfansoddiad y corff llywodraethol yn gywir yn unol â gofynion deddfwriaethol;
- Trefnu drafftio, arwyddo a chynnal Offeryn Llywodraethu'r corff llywodraethol;
- Cynghori ar Offerynnau Llywodraethu, rheoliadau llywodraethu ysgol, cylchlythyrau statudol, dyfarniadau cyfreithiol perthnasol a mesurau a gysylltir â llywodraethu ysgolion a all gael effaith ar rôl y corff llywodraethol;
- Cynghori ar gymhwyster, cworymau, gweithdrefnau ethol a rheoliadau anghymhwyso;
- Rhoi arweiniad ar sefydlu, cyfansoddiadau ac adolygiad (statudol) pwyllgorau (yn cynnwys cylch gorchwyl ar gyfer y pwyllgorau hynny);
- Rhoi arweiniad ar faterion cyfansoddiadol a gweithdrefnol;
- Monitro pwyntiau gweithredu i'w dilyn a gohebiaeth sy'n codi o benderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd;
- Sicrhau bod polisïau statudol yn weithredol, ac anfonir copïau i'r ysgol o bolisïau a dogfennau eraill sydd wedi eu derbyn gan y corff llywodraethol;
- Ymchwilio yn ôl gofyn y corff llywodraethol

## 2.2 Gwasanaeth Estynedig - codir tal yn ôl defnydd

**2.2.1** Oriau Ychwanegol - pan fydd Cyfarfodydd yn mynd dros 2 awr, codir tal o **£15 bob awr ychwanegol**

**2.2.2** **Cyfarfodydd Ychwanegol**

Gall y cytundeb gynnig gwasanaeth ychwanegol o gofnodi mewn cyfarfodydd ychwanegol am bris o
Ysgolion Cynradd - **£150 am bob cyfarfod ychwanegol**
Ysgolion Uwchradd - **£270 am bob cyfarfod ychwanegol**
(e.e. is-bwyllgorau statudol)*
Dylid gwneud cais 10 niwrnod cyn dyddiad y cyfarfod ychwanegol.

*Pwyllgorau Statudol
- Panel Disgyblu a Diswyddo
- Panel Apêl Disgyblu a Diswyddo
- Panel Gwahardd Disgyblion
- Panel Mynediad (Ysgolion a Gynorthwyir yn unig)

## 3.0 Pris y Cytundeb

**A Gweinyddol Craidd ynghyd â Chynghori'r Corff Llywodraethol –**
**£1500 y flwyddyn Ysgolion Cynradd**
**£2500 y flwyddyn Ysgolion Uwchradd**

**B Gwasanaeth Estynedig - codir tal yn ôl defnyd.**
Gall y Corff Llywodraethol fod angen mwy na 6 chyfarfod yn flynyddol. Byddai'r gost o glercio'r cyfarfodydd ychwanegol yn cael ei hysgwyddo gan yr ysgol fel y nodir.
**Ysgolion Cynradd - £150 am bob cyfarfod ychwanegol**
**Ysgolion Uwchradd - £270 am bob cyfarfod ychwanegol**

# Cytundeb Lefel Gwasanaeth
# Gwasanaeth Clerigol i Gyrff Llywodraethol
# 1af xxxx 201x - 31ain xxxx 201x

Addysg

| **Ysgol:** | **Rhif Ysgol:** |
|---|---|

Mae'r Corff Llywodraethol yn cytuno i brynu'r :

**A Pecyn Gweinyddol Craidd i'r Corff Llywodraethol -**
**£1500 y flwyddyn – Ysgolion Cynradd**
**£2500 y flwyddyn – Ysgolion Uwchradd**
**B Gwasanaeth Estynedig – codir tâl yn ôl defnydd**

am gyfnod o flwyddyn rhwng 1af o xxxx 201x at ddiwedd xxxx 201x.

**Arwyddwyd:** **(Cadeirydd y Corff Llywodraethol/Pennaeth)**

**Dyddiad:**